

Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: Fleming Suite, Canolfan Halliwell,
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant,
Caerfyrddin

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Chwefror 2012

Amser: 09: – 11:00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_500000_29_02_2012&t=0&l=cy

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

William Powell (Cadeirydd)
Russell George
Rhodri Glyn Thomas
Joyce Watson

Tystion:

Stephen Dubé, Grŵp Blaengwen Action Group
Bleddyn Williams, Grŵp Blaengwen Action Group
Caryl Harris, Grŵp Blaengwen Action Group
Lynn Morris, Grŵp Blaengwen Action Group
Terrence Neil, Grŵp Blaengwen Action Group

Staff y Pwyllgor:

Abigail Phillips (Clerc)
Sarita Marshall (Dirprwy Glerc)
Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)

1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins. Roedd Rhodri Glyn Thomas yn dirprwyo.

2. Deisebau newydd

2.1P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i:

Aros am ymateb gan y Gweinidog;

Ysgrifennu at Gyngor Sir Penfro a grwpiau mynediad lleol i ofyn am eu barn ynghylch pwnc y ddeiseb.

2.2P-04-365 Diogelu adeiladau nodedig ar safle hen Ysbyty Canolbarth Cymru

2.3

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i:
Ysgrifennu at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Sir Powys i ofyn am eu barn ynghylch pwnc y ddeiseb;
Ysgrifennu at Cadw, ac anfon copi at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, i ofyn am eu barn ynghylch pwnc y ddeiseb;
Gofyn am ragor o sylwadau gan Save Britain's Heritage ynghylch pwnc y ddeiseb.

2.4P-04-366 Cau Canolfan Ddydd Aberystwyth

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ymateb y Gweinidog i ohebiaeth y Cadeirydd.

2.5P-04-367 Achub ein gwasanaethau ysbyty

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ymatebion y Gweinidog a'r bwrdd iechyd.

2.6P-04-368 Annog gweithgarwch corfforol ac iechyd mewn colegau Addysg Bellach

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ymateb y Gweinidog a chynnal ymgynghoriad a oedd yn canolbwyntio ar bwnc y ddeiseb.

2.7P-04-369 Deiseb yn erbyn y Llwybr Arfordirol o Gaerdydd i Gasnewydd a thu hwnt.

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb hon am y tro cyntaf a chytunodd i aros am ymateb gan y Gweinidog ac i ofyn am farn yr RSPB ynghylch pwnc y ddeiseb.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1P-04-333 Rhoi diwedd ar esgeuluso a gadael ceffylau a merlod

3.2

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio trafodaeth bellach ar y ddesieb nes i'r Grŵp Trawsbleidiol yn ymwneud â Cheffylau orffen ei drafodaethau am y pwnc.

3.3P-03-200 Camlas Morgannwg

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y deisebydd i ofyn iddo a yw'n fodlon i'r ddeiseb gael ei chau.

3.4P-03-317 Cyllid ar gyfer y Celfyddydau Hijinx

3.5

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am ganlyniad gwaith grŵp gorchwyl a gorffen y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gyfranogiad yn y celfyddydau.

3.6P-04-357 Dyrannu Tai Cymdeithasol yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

3.7P-04-347 Adolygu eiddo ac asedau

Bu'r Pwyllgor yn ystyried gohebiaeth ynghylch y ddeiseb. O ystyried yr ymatebion cadarnhaol a ddaeth i law, cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

4. P-04-329 Rheoli swm o dyrbinau gwynt sy'n peri diflastod – sesiwn meic agored

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan aelodau o Grŵp Blaengwen ac aelodau eraill o'r gymuned.

Cytunodd y Pwyllgor:

I ysgrifennu at y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol yn ogystal â'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn crynhoi pryderon y gymuned am effaith y swm o dyrbinau gwynt ac i amgáu copi o drawsgrifiad y cyfarfod;

I ysgrifennu at Statkraft i amlinellu pryderon y Pwyllgor ynghylch sut yr ymdrinnir â chwynion gan y gymuned leol; ei annog i ddatrys problemau ynghylch y swm sydd wedi effeithio ar bobl lleol; ac i ofyn iddynt gynnal cyfarfod cyhoeddus gyda'r gymuned leol i drafod y problemau;

Y bydd aelodau o'r Pwyllgor yn rhannu trawsgrifiad o'r sesiwn meic agored gydag Aelodau Cynulliad eraill yn eu grwpiau plaid;

I ysgrifennu at y Gweinidog lechyd a Gwasanethau Cymdeithasol i dynnu ei sylw at bryderon y gymuned ynghylch swm o ffermydd gwynt;

I ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i dynnu ei sylw at bryderon y gymuned ynghylch swm o ffermydd gwynt a'r ffaith y bu diffyg ymgynghori â'r gymuned mewn perthynas â TAN 8 ac na chafwyd adolygiad ohono;

I ddwyn prif bwyntiau'r drafodaeth i sylw pedwar Aelod Cymru o Senedd Ewrop;

I gyhoeddi nodyn ar gyfarfodydd y Pwyllgor gyda rhanddeiliaid ar 27 Chwefror.

4.1 Papur i'w nodi – P-04-352 Galwad i Achub Golchdy Stêm y Rhath

Trawsgrifiad

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod](#).